# Papur
## Elim, Heol Awst a'r Priordy

Gofalaeth Caerfyrddin
a Bancyfelin



**AR ŴYL EIN NAWDDSANT, NEFOL DAD,**
**O GWRANDO'N GWEDDI DROS EIN GWLAD.**
**EIN DIOLCH, DERBYN, AM I TI**
**ROI'R GYMRU HON YN WLAD I NI.**

**Ioan Wyn Gruffydd**
**(1938-2025)**

# Rhifyn 18
# PAPUR MAWRTH 2026

# GAIR GAN EIN GWEINIDOG

## Mwnt

***ROEDD*** hi’n braf cael cyfle i alw yn Eglwys y Groes Sanctaidd, neu Eglwys y Grôg ym Mwnt pa ddydd tra oeddwn ar daith gerdded ar hyd llwybr arfordir Ceredigion.



Dyma fan heddychlon a hawdd deall bod Eglwys y Groes Sanctaidd ym Mwnt wedi bod yn gyrchfan i bererinion ers canrifoedd ac mae'n parhau i fod â thynfa hyd heddiw.

Mae’r eglwys yn eistedd uwchben crug o'r Oes Efydd yn edrych dros Draeth Mwnt a Môr Iwerddon. Dechreuodd yr adeilad carreg gwyngalchog ei fywyd fel capel i forwyr.

Yn ychwanegol at ei lleoliad prydferth, mae'n llawn nodweddion hanesyddol anarferol, gan gynnwys to derw prin o'r bymthegfed ganrif a bedyddfaen wedi'i gerfio o gerrig Preseli o'r ddeuddegfed ganrif.

Daw enw’r Eglwys o'r groes garreg dal a oedd yn arfer sefyll ar Foel y Mwnt gerllaw. Roedd y groes yn begwn i addolwyr a fyddai’n teithio o bell ac agos i ymweld â'r eglwys fach dlos hon.

Yn y canol oesoedd, byddai cyrff seintiau yn aml yn oedi yma ar eu ffordd i'w claddu ar Ynys Enlli. Roedd hefyd yn gyrchfan poblogaidd i bererinion a oedd yn teithio i Dyddewi yn Sir Benfro, ar ôl i'r Pab Calixtus II ddatgan ym 1123 bod dwy daith i Dyddewi’n hafal i un i Rufain, tra bo tair yn werth pererindod i Jerwsalem.

***BYDD*** hi’n Ŵyl Dewi erbyn i chi dderbyn y rhifyn hwn o Bapur yr Ofalaeth. Beth am fynd ar Bererindod i Dyddewi gyda ni ar 1 Mawrth eleni? Nid yn llythrennol, oherwydd bod 1 Mawrth yn cwympo ar y Sul y tro hwn a phawb ohonoch yn yr oedfaon undebol gobeithio! Ond gellir mynd ar bererindod yn feddyliol ac yn ysbrydol. Gobeithio y bydd yr oedfaon eleni yn gymorth i ni deithio mewn meddwl ac ysbryd ar hyd hen lwybrau’n cyndadau ac yn eu plith ein Dewi ni, Nawddsant ein cenedl.

## GWEDDÏWN

Ein Tad,
Tad yr holl genhedloedd –
Diolch i ti am dy roddion gwerthfawr i ni fel cenedl.
Diolch i ti am ein harweinwyr, ein hanes, ein tirwedd hardd a'n traddodiadau.
Diolch i ti am roi i ni bobl ffyddlon a fu'n sôn amdanat ac yn dysgu dy ffyrdd i ni. Heddiw, wrth i ni ddathlu ei ŵyl, diolch i ti'n arbennig am Dewi.
Gweddïwn ar ran ein cenedl, a oedd mor annwyl i Dewi fel i ninnau.



Dros Gymru'n gwlad, O Dad dyrchafwn gri
Y winllan wen a roed i'n gofal ni;
D'amddiffyn cryf a'i cadwo'n ffyddlon byth,
A boed i'r gwir a'r glân gael ynddi nyth;
Er mwyn dy Fab a'i prynodd iddo'i hun,
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

**AMEN**

## DARLLENIADUR

| Mis Mawrth | Darlleniad |
|---|---|
| **Wythnos 1**<br>***Dydd Gŵyl Dewi*** | **Salm 121** |
| **Wythnos 2** | **Ioan 4: 4-42** |
| **Wythnos 3** | **Ioan 9: 1-41** |
| **Wythnos 4** | **Ioan 11: 1-45** |

## PANED A SGWRS

**Gwesty'r Llwyn Iorwg**
**DYDD MERCHER, 18 MAWRTH 2026 – 10.30**
**Paned a Sgwrs a Myfyrdod Byr**
**Croeso cynnes i bawb**

**DIOLCH YN FAWR**

**Diolch i Beti-Wyn ac Athrawon yr Ysgolion Sul am y lluniau'r mis hwn.**

# DIOLCH YN FAWR

***Cydnabyddir yn ddiolchgar gyfraniad***

**ALED A MARGARET EVANS**
**BETSAN JAMES**

***at gyhoeddi'r Papur y mis hwn***


**YN DYMUNO NODDI PAPUR YR OFALAETH?**
**Cyswllt**
**PHILIP JONES**
**Trysorydd**
**☎ 01267 233437 / info@maxevans.co.uk**



**Gellir trosglwyddo cyfraniad i'r cyfrif isod gan nodi'ch enw a "papur" fel cyfeirnod:**

**'Eglwys Annibynnol Y Priordy' Banc Lloyds**
**30-91-68**
**Acc no: 00229403**

**neu osod cyfraniad mewn amlen a'i dychwelyd i'n Gweindog neu Ysgrifennydd yr Eglwys neu ei rhoi yn y blwch casglu.**



**Joan Thomas…**



## DATHLU 300 MLYNEDD CAPEL HEOL AWST


***AR*** 5 Ebrill 1726 agorwyd capel newydd yn Heol Awst ar gyfer yr ychydig bobl a arferai gyfarfod mewn tŷ annedd i addoli. Dechreuodd yr eglwys ei bywyd mewn adeilad yn Heol y Prior a adnabuwyd fel tŷ cwrdd. Dyna'r rheswm y mae'r plac ar wal flaen y capel presennol yn galw'r lle yn "meeting house". Rhoddodd un o'r aelodau, John Corrie, dir i godi'r hen Dŷ Cwrdd hwn yn ogystal â darn bach o dir ar gyfer mynwent yn y cefn. Mae'n debyg bod yna lwybr yng nghanol yr hen Dŷ Cwrdd hwn, y pulpud yn y pen pellaf, a llofft gyferbyn â hwnnw. Dengys gweithredoedd y capel, dyddiedig 12 Mai 1725, bod yr aelodau eisoes yn cyfarfod yn Heol Awst cyn hyn.

Yn ystod cyfnod gweinidogaeth y Parchg David Peter (1792-1837) tyfodd yr eglwys i'r fath raddau fel y daeth y capel yn rhy fach, ac ym 1802 datgymalwyd yr adeilad, er mwyn adeiladu capel mwy o faint. Gosodwyd y garreg sylfaen, 2 Mai 1802, a dechreuwyd addoli yn y Tŷ Cwrdd newydd hwn, 18 Gorffennaf yr un flwyddyn.




Ymhen tuag ugain mlynedd roedd yr adeilad hwn, eto, wedi mynd yn rhy fach, felly 10 Hydref 1825 lluniwyd gweithredoedd newydd i brynu tŷ a gardd a oedd yn ffinio â'r Tŷ Cwrdd. Ar 26 Ebrill 1826 trefnwyd i godi'r capel presennol, ac ar 5 Ebrill 1827 fe'i agorwyd. Ystyriwyd y dydd hwn yn ddydd o ŵyl yn y dref, a chaewyd y siopau o barch i'r ganolfan ysbrydol newydd hwn. Mae'n debyg mai dyma gapel mwyaf yr Annibynwyr yng Nghymru yr amser hwnnw, a disgrifiodd un o'r gweinidogion diweddarach, Dyfnallt, y pulpud arbennig, uchel, yn "witness box". Yn y dyddiau cynharaf, roedd cryn dipyn yn uwch nag y mae erbyn heddiw. Ychydig iawn o newidiadau eraill a wnaed i'r capel oddi ar y flwyddyn honno.

Roedd 1872 yn flwyddyn bwysig yn hanes y capel a'r eglwys. Dyma leoliad Cyfarfodydd Blynyddol cyntaf erioed Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Llywydd cyntaf yr Undeb oedd Gwilym Hiraethog, a oedd yn Weinidog yn Lerpwl. Pan gaeodd y capel hwnnw ei ddrysau am y tro olaf, dymuniad yr aelodau oedd bod y gadair a ddefnyddiai yno yn dod i Heol Awst, a dyma'r gadair a ddefnyddia pob person a ddaw atom i'r Festri i bregethu.



Ymhen hanner canrif dychwelodd Cyfarfodydd Blynyddol yr Undeb i Heol Awst unwaith eto. Ar y noson gyntaf (29 Mai 1922) dadorchuddiwyd Ffenestr Goffa Stephen Hughes, 'Apostol Sir Gaerfyrddin', a sefydlodd yr eglwys yn gynnar yn ail hanner yr ail ganrif ar bymtheg. Dyma'r unig gofeb sydd ar gael i'r gwron hwn. Yr wythnos gynt dadorchuddiwyd Ffenestr Goffa i'r bechgyn a gwympodd yn ystod y Rhyfel Mawr, ac yn ddiweddarach ychwanegwyd enwau'r bechgyn a gollwyd yn yr Ail Ryfel Byd. Dadorchuddiwyd Ffenestr Goffa Dyfnallt, a fu yn Weinidog yr eglwys o 1910 i 1946, ar 10 Ebrill 1960; ac ym 1981 rhestrodd CADW yr adeilad yn Radd 2 ac yn Safle Treftadaeth y Byd.

Ceir hefyd nodweddion eraill sy'n werth eu gweld yn yr adeilad, er enghraifft dwy ffenestr liw, bach o ran ei maint, a allai fod wedi bod yno oddi ar 1826. Ond wrth gloi, cyfeiriaf yn unig at yr ychwanegiadau eraill, fel y system gwresogi, yr organ bîb, yr Ysgoldy, y Festri Fach, y toiledau, ac Ystafell y Gweinidog sydd, erbyn hyn, yn rhan o'r adeilad anferth hwn yn Heol Awst.

Byddwn yn nodi 300 mlwyddiant y Capel gyda chyngerdd ar nos Sul 22 Mawrth am 6.00 o'r gloch yng nghwmni'r unawdydd Fflur Wyn,

Côr Ysgol Bro Myrddin, ac Adran yr Urdd Ffynnon-ddrain. Llywydd y noson fydd Ifan Charles, Prif Gwnstabl Heddlu Dyfed Powys, ac un o blant yr eglwys. Croeso i bawb.



***ER*** ein bod y llawenhau wrth ddathlu 300 yr adeilad nodedig hwn, llawenydd mwy yw bod yr eglwys yn parhau i gwrdd yn ffyddlon oddi fewn i'r adeilad a bod yma gwmni clòs a gweithgar. Diolchwn am yr hyn a fu ac edrychwn ymlaen yn hyderus at yr hyn a ddaw eto.

**CYMANFA GANU UNDEBOL CAERFYRDDIN A'R CYLCH**

NOS SUL, 27 MEDI 2026
AM 5 O'R GLOCH YR HWYR
CAPEL BABELL ZION NEWYDD, PENSARN, CAERFYRDDIN SA31 2DJ

Arweinydd: Parchedig Wyn Maskell, Aberteifi
Organydd: Carole Rees,
Eitemau gan Gôr Meibion Caerfyrddin

Rihyrsals:
Nos Sul, 12 Gorffennaf am 5 o'r gloch yn Festri Y Tabernacl.
Arweinydd: Helen Gibbon. Cyfeilydd: Meredydd Edwards.

Nos Sul, 6 Medi am 5 o'r gloch yn Festri Y Priordy.
Arweinydd: Nicki Roderick. Cyfeilydd: Y Priordy.

Brif Rihyrsal – Nos Sul, 13 Medi am 5 yr hwyr yng Nghapel Babell Zion Newydd.
Arweinydd: Helen Gibbon. Organydd: Carole Rees.

**Pererindod Gwener y Groglith 2026**
**Cario'r Groes i**
**Gopa Bryn Myrddin**

**Gadael Alltyfyrddin (SA32 7ER)**
**am 2.30yp yn brydlon**
**Oedfa fer ar ben y bryn am 3.00yp**
**Cyfle i brynu paned a chacen yn Alltyfyrddin**
**ar ddiwedd y daith. Pris £4.00**
**Os nad ydych am gerdded,**
**croeso i chi ddod am baned erbyn 3.30**

# Y Tudalen Blaen - Emyn Gŵyl Dewi



**Dyfynnir pennill cyntaf emyn o waith Y Parchedig Ioan Wyn Gruffydd ar y tudalen blaen.**



**Bu farw'r Parchedig Ioan Wyn Gruffydd, Pwllheli, ar 9 Tachwedd 2025. Bu'n weinidog gyda'r Annibynwyr mewn sawl man yng Ngogledd Cymru ond hefyd ym Mhantycrwys, Craig-cefn-parc. Bu'n Ysgrifennydd Cenhadol Undeb yr Annibynwyr Cymraeg am gyfnod a hefyd yn Ysgogydd Cenhadol Cyfundeb Llŷn a c Eifionydd. Roedd yn weithgar gyda Chymdeithas yr Iaith a Chymdeithas y Cymod a bu'n gynghorydd tref ac yn faer ym Mhwllheli. Diolch iddo am ei holl weithgarwch yn ystod ei fywyd a hefyd am ei emyn Gŵyl Dewi. Dyfynnwn yr emyn cyflawn yn y fan hon:**

**Ar ŵyl ein nawddsant, nefol Dad,**
**O gwrando'n gweddi dros ein gwlad.**
**Ein diolch, derbyn, am i Ti**
**Roi'r Gymru hon yn wlad i ni.**

**Am wlad mor hardd, rhoi diolch wnawn,**
**I'th enw di, ein clod a rown;**
**Am holl brydferthwch tir a môr,**
**Am nant a bryn, am gân a chôr.**

**Gwna'n bywyd oll yn fywyd glân,**
**Yn bur, rhinweddol, fel ein cân;**
**A dysg ni pan fo blin y daith,**
**I gofio'r Iesu yn ein gwaith.**

**Am Ddewi Sant a'i neges ef**
**I'n dwyn ni oll i lwybrau'r nef,**
**Cawn ddilyn Iesu Grist o hyd**
**A'i 'nabod yn Waredwr Byd.**

## OEDFA DEULU YN ELIM

***ROEDD*** hi'n hyfryd gweld llawr y capel yn llawn ar gyfer yr oedfa Deulu fore Sul 1 Chwefror. Bu plant yr Ysgol Sul yn paratoi ar gyfer y diwrnod hwn ers peth amser! Maent wedi bod yn dysgu yn yr Ysgol Sul am Fedydd a'u dymuniad oedd cynnal oedfa ar y thema. Bu'r plant yn gweithio'n ddiwyd yn paratoi gwahoddiadau, cardiau, blodau a chacennau ar gyfer yr achlysur.

Cyhoeddwyd yr emynau gan Lara, Isaac, Gwenan ac Elena. Darllenwyd gan Luned, Amy a Mirain ac arweiniwyd mewn gweddi gan Natalie. Casglwyd gan Aneurin a Trystan. John oedd wrth yr organ a Brian yn gyfrifol am y cyhoeddiadau.

Yn y darlleniadau clywsom am ystyr bedydd, ac am hanes Iesu yn cael ei fedyddio yn Afon Iorddonen. Cawsom ein hatgoffa hefyd fod rhai Cristnogion yn credu mewn bedyddio oedolion ac eraill blant. Ymunodd pawb yng nghytgan y ffilm ar y sgrîn *'Gadewch i'r plant bychain ddod ata i'.*

Swynwyd y gynulleidfa gan ddwy gân a gyflwynwyd gan blant yr Ysgol Sul, sef '*Iâr fach yr hâf*' a '*Cristion bychan ydwyf.'*




Wrth siarad â'r plant, bu Beti-Wyn yn eu holi am yr hyn yr oeddent wedi'i ddysgu am fedydd yn yr Ysgol Sul, a phawb yn cofio'r ffeithiau'n ardderchog. Yna, daeth yr awr fawr a chyfle i'r plant i gymryd rhan yn yr act o fedydd! Gyda llond sedd fawr o blant yn sefyll mewn rhes, ac yn gwmni iddynt, ambell ddol, tedi a chi defaid... gofynnodd Beti-Wyn a oedd gan bob un ohonynt enw! Wedi cadanhau'r enwau, aeth Beti-Wyn â'r fowlen fedydd ar hyd y sedd fawr a phob plentyn yn gosod eu bys yn y dŵr, ac yna, ar gyfarwyddyd Beti-Wyn, yn tynnu llun croes gyda'r dŵr ar dalcen pob dol a thedi! A dyna ni... y cwbl wedi eu bedyddio mewn

eiliad! Am hwyl ac am brofiad i ni i gyd. Ond roedd un syrpréis arall i ddod, sef tystysgrif bedydd arbennig a baratowyd ar eu cyfer i'w llenwi â manylion y bedydd.



***WEDI'R*** emyn nesaf 'Iesu Geidwad bendigedig' gweinyddwyd y Cymun.

***DIOLCH*** am oedfa lawen ac i bawb a gymerodd rhan.

**YSGOL SUL ELIM YN MWYNHAU YN Y BANC BWYD!**





**Llongyfarchiadau i Beca (P) ar dderbyn Medal Arian yn Ffeinal Athletau Dan Do Cymru yn ddiweddar yn y ras 300 metr ar gyfer menywod dan 17 oed**




**Ysgol Sul y Priordy yn paratoi ar gyfer y Gwasanaeth Gŵyl Dewi**





**Ysgrifennodd Aled Evans (P) \yr englyn hwn yn eithaf diweddar ar ôl gweld yr holl faneri (Dreigiau Coch a Jac yr Undeb) yn cael eu hedfan mewn ambell le. Mae'n gweddu'n dda ar gyfer Gŵyl Dewi.**

## Baner



**Mi wn fod yn fy maner erwau rhydd**
**a'r hawl bob un amser**
**i le saff tan olau sêr -**
**ei lliw o blaid y llawer.**



# CWIS Y DIARHEBION CYMRAEG

## Mae pob dihareb yn dechrau gyda'r llythyren 'T'

Llanwch y Bylchau! Rhowch gynnig arni! Ceisiwch ddyfalu beth yw'r gair coll!
Pob lwc!!

| | |
|---|---|
| 1 | Taith bell yw ----- |
| | |
| 2 | Taro'r post i'r pared ---- |
| | |
| 3 | Tawed y callaf --- |
| | |
| 4 | Teg edrych tuag ---- |
| | |
| 5 | Torri'r pilyn yn ôl y ---- |
| | |
| 6 | Tew y beiau lle tenau'r --- |
| | |
| 7 | Tri chynnig i --- |
| | |
| 8 | Troi o boptu i'r --- |
| | |
| 9 | Trydydd troed i hen ei --- |
| | |
| 10 | Trymaf baich, baich o --- |

Atebion ar Dudalen 23

**A WYDDECH CHI?**

**Sefydlwyd Friends of Friendless Churches (FoFC) ym 1957 gan grŵp o gyfeillion a oedd yn dymuno achub eglwysi a oedd wedi cau rhag iddynt gael eu dymchwel neu droi'n adfeilion.**


**Mae FoFC yn gofalu am nifer o eglwysi yn Lloegr ac yng Nghymru.**



**Yn eu mysg mae dwy eglwys yng Nghymru sydd wedi'u cysegru i'n Nawddsant Dewi.**

**Eglwys Dewi Sant, Maenordeifi**

Saif hen eglwys Maenordeifi yn agos at lan Afon Teifi tua hanner ffordd rhwng Castellnewydd Emlyn ac Aberteifi. Credir bod eglwys ar y safle ers y chweched neu'r seithfed ganrif wedi'i chysegru i Lawddog, sant Celtiadd ac yn ddiweddarach i Sant Lawrens. Pan grëwyd plwyf yn y ddeuddegfed ganrif y cysegrwyd yr eglwys i Ddewi Sant. Gan fod yr eglwys mor agos at yr afon a llifogydd yn digwydd yn aml byddai'n cadw cwrwgl ei hunan i gludo addolwyr yn ôl ac ymlaen. Mae cwrwgl yn parhau i fod yn yr eglwys.



Treuliodd y bardd telynegol John Blackwell (Alun) (1797 - 1841) wyth mlynedd fel rheithior y plwyf, o 1833 hyd ei farwolaeth yn 1841. Claddwyd ef ym mynwent y plwyf.



Caeodd yr eglwys yn 2000 a chymerodd FoFC ofal ohoni.

**Eglwys Dewi Sant Llangyfiw**

Pentrefan yng nghymuned Llantrisant Fawr, Mynwy yw Llangyfiw. Nid yw'n bell o Frynbuga.



Mae'r eglwys wedi'i lleoli mewn mynwent gylchog ac wedi'i hamgylchynu gan lechwedd ac olion ffos.
Ceir y cofnod cynharaf am yr eglwys yn 1254 ond mae nodweddion arbennig y safle'n awgrymu bod trigfan yno ymhell cyn hynny.




Fe'i cyfrifir yn adeilad rhestredig Gradd 1 gan Cadw ohewydd ei nodweddion pensaernïol mewnol a'u harwyddocâd hanesyddol**.**

Caeodd yr eglwys yn 1999 a daeth dan ofal FoFC.



## A WYDDECH CHI FOD TELYNOR ENWOG O GYMRO WEDI'I ENI AR FAWRTH Y CYNTAF?

**Ganed JohnThomas (Pencerdd Gwalia) ym Mhen-y-bont ar Ogwr ar 1 Mawrth 1826, sef deucan mlynedd yn ôl i'r mis hwn**.



Dysgodd ei dad iddo ganu'r picolo a'r delyn. Datblygodd yn fuan iawn fel telynor. Ei offeryn oedd y delyn deires draddodiadol. Fe'i clywyd yn canu'r delyn gan Ada, Arglwyddes Lovelace, merch y bardd Byron, a'i noddodd wedyn i astudio yn yr Academi Brenhinol yn Llundain gyda'r athro John Balsir Chatterton yn ei hyfforddi. Perswadiodd yr Arglwydded deulu cyfan Edward i symud i Lundain! Bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'r delyn deires a chanolbwyntio ar y delyn unres.

Teithiodd y cyfandir yn cynnal cyngherddau gan ennill cryn enwogrwydd iddo'i hunan. Daeth yn delynor i'r Frenhines Fictoria ac yn ddiweddarach i'r Brenin Edward VII. Cafodd ei urddo'n 'Bencerdd Gwalia' yn Eisteddfod Aberdâr, 1861, a chafodd ei benodi'n Athro'r delyn yn yr Academi Gerdd Frenhinol, y Coleg Cerdd Brenhinol ac yng Ngholeg Cerdd y Guildhall, Llundain.



Roedd yn hynod o falch o'i Gymreictod. Meddai Wyn Thomas yn Cydymaith i Gerddoriaeth Cymru*:*

*Nid anghofiodd am Gymru a'i thraddodiadau… (fe'i gwahoddwyd yn gyson i Feirniadu yn Eisteddfodau Cenedlaethol y cyfnod), a sefydlodd gyfres o gyngherddau Cymreig (yn Neuadd St James ac yn Neuadd Albert, Llundain) mewn cydweithrediad â* ***Brinley Richards [1819-1885 - brodor o Gaerfyrddin]*** *a fu'n gyfrwng i boblogeiddio'r delyn a cherddoriaeth gorawl Gymreig dros gyfnod o ddeugain mlynedd.'*

## YR YSGOLION SUL AR DDYDD SANTES DWYNWEN

### ELIM











### Y PRIORDY












# Lliwich Dewi



**Beth yw'r geiriau coll?**


"Gwnewch y pethau

____________

a glywsoch ac a

____________


gennyf i"



Ydy chi'n cofio pa liwiau sydd ar faner Dewi Sant?




Hwyl fawr tan tro nesaf!
Beti-Wyn



# Ifanc@Gofalaeth

## Chwilotair Cymru



| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I | E | E | S | A | N | T | D | C | S | I | I | A | R |
| W | E | D | N | A | N | I | T | I | E | E | O | A | E |
| E | C | R | I | D | I | I | M | H | H | N | Y | I | H |
| D | E | B | I | W | D | W | T | R | H | A | E | I | T |
| A | N | E | C | E | I | R | L | E | B | E | O | D | E |
| D | H | I | D | C | W | L | S | W | E | A | A | R | L |
| B | I | B | O | A | I | N | L | H | C | H | N | C | B |
| W | N | L | M | H | N | T | L | I | A | E | A | E | I |
| R | E | E | N | D | N | E | L | L | A | N | I | E | R |
| T | N | I | N | R | N | I | M | E | O | N | E | A | N |
| E | B | N | E | A | N | I | A | O | L | R | T | S | O |
| B | E | N | A | I | I | N | I | I | L | N | I | O | N |
| D | D | A | I | G | H | T | N | C | T | O | O | E | A |
| I | R | O | H | C | A | N | Y | M | E | H | C | D | D |

DIWILLIANT
CENEDL
BEIBL
NON
IAITH
MAWRTH
COLOMEN
CENHINENBEDR
BANER
SANT
HANES
MYNACH
DRAIG
DEWI



***I'r dyddiadur!***



***Dathlu Gwyl Dewi***
***Ysgolion Sul Cymraeg***
***Caerfyrddin***
***Oedfa Bore Sul, 1 Mawrth***
***am 10.00 o'r gloch***
***yng Nghapel Y Priordy***
*Oedfa Gymun Undebol am 5.00 yr hwyr*

*I'ch dyddiadur* ★★★


**MABOLGAMPAU'R**
**YSGOLION SUL**

*Trefinr gan MIC*

**NOS WENER, 10 GORFFENNAF**
**YSGOL MAES Y GWENDRAETH**

## Dydd Gweddi'r Byd

Gwener 6 Mawrth 2026
Oedfa Gymraeg
am 2.00 o'r gloch
yng
Nghapel yr Annibynwyr Saesneg
Heol Awst
Croeso i bawb
Oedfa Saesneg am 10.30yb




## Talwrn y Daffodil

**NOS FERCHER, 4 MAWRTH 2026**

**YR EGIN, CAERFYRDDIN**

**7 O'R GLOCH**

**Y DDAU FEURYN:**
**TUDUR DYLAN A MERERID HOPWOOD**

**TIMOEDD:**
**YR YSGOL FARDDOL**
**CWM GWENDRAETH**
**CAPEL Y PRIORDY**

*Mynediad am ddim*
*Casgliad at achos da lleol*

*Croeso i bawb*

## Gareth Gravell (P)…



### Taith i Batagonia

***RHAID*** i mi gyfaddef o'r cychwyn cyntaf nad oedd ymweld â Phatagonia flaenaf ar restr fy mlaenoriaethau. Efallai oherwydd y pellter, tua 8000 o filltiroedd, neu efallai nad oedd y wlad ei hun yn fy nenu cymaint â hynny. A dweud y gwir, Rhian fy ngwraig wnaeth fy narbwyllo i fynd ar ôl llawer o drafod! Felly dyma ni'n gwneud y trenfiadau ar gyfer y daith fis Hydref 2025.

Roeddwn yn ymwybodol, wrth gwrs, o hanes y Mimosa yn hwylio o borthladd Lerpwl ar yr 28ain o Fai 1865. Arni roedd 153 o ymfudwyr o Gymru a oedd yn gadael er mwyn creu Cymru newydd, gwarchod yr iaith Gymraeg a sefydlu Cymdeithas o Gymry Cymraeg mewn gwlad bell. Roedd yna resymau eraill hefyd. Un ohonynt oedd bod y Chwyldro Diwydiannol heb roi rhyw lawer o obaith i nifer o Gymry am waith nac ychwaith ddyfodol sicr i'w teuluoedd. Roedd nifer yn ogystal yn siomedig bod yr ''Hen Ffordd Gymreig o fyw'' yn gadael nifer o bobl yn dlawd ac yn anhapus iawn.




Fe gyrhaeddodd y Mimosa ei chyrchfan ar 28ain o Orffennaf 1865. Taith o ddeufis caled a heintiau a salwch yn rhemp ar fwrdd y llong ac yn drist iawn bu pedwar o blant farw ar y fordaith hir ac anodd hon. Glaniodd Y Mimosa ym Mhorth Madryn yn ardal y Chubut. A chofiwch hefyd mai canol gaeaf oedd hi a'r unig loches i'r teithwyr dewr rhag y tywydd creulon oedd ogofâu ar lan y môr. Cawsom ymweld â nifer o amgueddfeydd a gweld bod nifer fawr wedi dod â'u dodrefn a'u heiddo personol gyda nhw ar y llong. Roedd yn amlwg i fi bod argyhoeddiad a ffydd mawr gan y Cymry yn eu penderfyniad i wneud taith o'r fath.

Roedd 17 ohonom o bob cwr o Gymru ar y daith a chymerodd ryw un ar ddeg awr i groesi o Lundain i Sao Paulo ym Mrasil ac yna ryw ddwy awr arall i gyrraedd Buenos Aires ble roeddem am aros am y ddau ddiwrnod canlynol. Mae crynhoi y daith hon i un neu ddwy dudalen yn anodd gan ein bod wedi gwneud cymaint a chwrdd â chymaint o bobl a chanddynt gysylltiadau â Chymru. Mae nifer o brofiadau anhygoel yn sefyll yn y cof a byddaf yn ymhelaethu arnynt yn nes ymlaen.

Roedd y diwrnodau cyntaf yn gyfle i ddod i adnabod ein hamgylchfyd newydd. Mae Buenos Aires yn ddinas fendigedig gyda phoblogaeth o ychydig dros 3 miliwn. Dinas o

wrthgyferbyniadau - tai a swyddi crand yng nghanol y ddinas,siopau, gwestai a thai bwyta moethus a chofgolofnau brenhinol ond tlodi mawr ar y cyrion a theuluoedd yn gorfod byw mewn cartrefi yn debyg i gytiau ieir…un ar ben y llall. Cyn gadael Buenos Aires cawsom gyfle i ymweld â bedd Eva Perón arweinydd Yr Ariannin o 1946 i 1952. Roedd y bobl bwysig a chyfoethog yn cael eu rhoi mewn beddau crand iawn, tua'r un faint ag ystafell fechan a'r fynwent o faint pentref bach gyda'r holl feddau yn ffurfio strydoedd cul drwy'r pentre'.

Ein hymweliad nesaf oedd â Threlew, tref fawr a sefydlwyd gan Lewis Jones, un o arweinwyr mwyaf amlwg Y Wladfa. Yma cawsom gyfle i ymuno â Seremoni'r Orsedd ac yna ymlaen i ymweld ag Ysgol Gymraeg y Gaiman. Profiad hyfryd oedd cael sgwrsio â'r plant yn Gymraeg. Pwynt pwysig i nodi yw mai'r rhieni sy'n cyllido'r rhan fwyaf o addysg y plant yn yr ysgolion Cymraeg yma a bach iawn o help ariannol sy'n dod gan y Llywodraeth. Mae hyn yn dyst i ymrwymiad y rhieni i gadw'r iaith a diwylliant Y Wladfa'n fyw. Ymlaen wedyn i Ysgol Gynradd arall sef Ysgol yr Hendre ac amgueddfa wych Pueblo de Luis ac yn y nos swper bendigedig a drefnwyd gan Gymdeithas Dewi Sant Trelew.




Bob mis Medi cynhelir yr Eisteddfod flynyddol yn Nhrelew. Digwyddiad pwysig iawn ac er nad yw ar yr un raddfa ag Eisteddfod Genedlaethol Cymru o ran maint, mae'n ddigwyddiad llawn prysurdeb a balchder yn cynnwys cerddoriaeth, adrodd, dawnsio ac eitemau offerynnol o bob math. Yn sicr, mae'n gyfle i Gymry'r Gaiman ac ymhellach i ddangos eu talentau arbennig, gan orffen gyda Seremoni'r Cadeirio.

Cyn ymadael â Threlew buom yn gwylio gêm rygbi rhwng Trelew a Dreigiau'r Gaiman- gêm ola'r tymor. Roedd Brian Jones (E), Castell Howell a'i deulu ar y daith gyda ni a chwaraeodd Tom, mab Brian, i'r Gaiman. Yn anffodus, collodd tîm Tom wedi ymdrech lew ar y cae. Yna 'nôl i Glwb Rygbi'r Gaiman am ''asados'', sef barbeciw wedi ei baratoi gan y chwaraewyr a'r pwyllgor.




Taith sy'n aros yn y cof am reswm amlwg oedd y daith i Esquel ar ochr orllewinol Yr Ariannin. Tref brydferth yng nghanol mynyddoedd yr Andes yw Esquel. Roedd hyn yn golygu taith o ddeng awr mewn bws ar hyd heolydd cyntefig, troellog ac anghyffyrddus y paith tuag at fynyddoedd Yr Andes! Dyma'r unig heol sy'n croesi'r paith a fwy neu lai yr un llwybr a gymerodd y sefydlwyr cynnar wrth chwilio am ardal newydd i ymgartrefu ynddi. Wrth deithio am ryw bum awr dyma ni'n cyrraedd ardal Cwm Hyfryd a enwid oherwydd i'r ymsefydlwyr weld ei fod yn lle ardderchog i fyw ynddo gan fod y tir yn ffrwythlon a'r ardal mor brydferth.

Cawsom gerdded llwybrau Parc Cenedlaethol Los Alerces sef un o Warchodfeydd

Biosphere UNESCO yn Yr Andes a thynnu lluniau o'r golygfeydd godidog o'n cwmpas ac ymweld â ffermydd yr ardal a ffermydd tiwlipau ynghyd â gwinllannoedd ardal Nant 1y Fall. Ac wrth gyrraedd Pentre Esquel cyfle i orffwys, fwy neu lai am y tro cyntaf ers cyrraedd y wlad unigryw hon a chyn gadael am adre cawsom gyfle i wneud ychydig o siopa yn y pentre hyfryd hwn. Diolch byth mai awyren ac nid bws oedd yn ein cludo yn ôl i Buenos Aires!

Taith fythgofiadwy am nifer o resymau a gormod i'w rhestru fan hyn. Un peth yn sicir oedd y croeso caredig, teuluol a gawsom wrth swpera bob nos â theuluoedd a gwahanol gymdeithasau. Roedd y croeso'n ddidwyll ac yn llawn cariad. Yn sicr mae nhw'n gwerthfawrogi ymweliadau o Gymru yn fawr iawn. Gwnaeth y daith hon hefyd i mi feddwl am ddewrder a dyfeisgarwch y sefydlwyr cynnar a ddioddefodd gymaint i wneud Y Wladfa beth ydyw heddiw.

Ac i gloi…roedd cymryd rhan yn y Gymanfa Ganu ble roedd Capel Bethania dan ei sang o Gymry'r Wladfa yn canu emynau cyfarwydd yn Gymraeg, a ninnau mor bell oddi cartre, yn brofiad ysgytwol. Profiad na ellir ei drosglwyddo i eiriau.

Roedd pob un ohonom yn teimlo ein bod yn wahanol bobl ar ôl gwneud y daith. Roedd yn ddigwyddiad a wnaeth gydio yn ein heneidiau rywsut wrth i ni ddod yn agos at ein cyfeillion newydd. Pobl yw'r rhain â'r un daliadau â ni sef y Capeli,yr iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg a phobl sydd am rannu eu bywydau â ni gyda charedigrwydd a didwylledd.



***FELLY*** os oes rhai ohonoch yn pendroni, fel y gwnes i, am gymryd y cam, peidiwch da chi. Cewch eich swyno gan y bobl a'r wlad ei hun ac fe fydd yn brofiad bythgofiadwy ac amhrisiadwy.

## ATEBION Y CWIS
## MIS MAWRTH

| CWIS Y DIARHEBION | | | |
|---|---|---|---|
| 1 | byth | 6 | cariad |
| 2 | glywed | 7 | Gymro |
| 3 | gyntaf | 8 | berth |
| 4 | adref | 9 | ffon |
| 5 | brethyn | 10 | bechod |

**Gwefan yr Undeb: www.annibynwyr.org**


# PANED A SGWRS MIS CHWEFROR









**GWASANAETH PASG**
**CARTREF PLAS Y DDERWEN**
**Prynhawn Gwener – 27 Mawrth 2026**
**2.30**
***gyda'n*** **Gweinidog**




| | |
|---|---|
| GŴYL CANOL DRE CAERFYRDDIN 11 . 7 . 26 | **Bydd Stondin gan yr Ofalaeth yno** |

## CYFARFOD CYMDEITHAS CHWIROYDD ELIM

**Cafwyd prynhawn hyfryd a hwyliog yng nghwmni'r siaradwr gwadd John Jones**










| DATHLU'R PASG YN Y TABERNACL | |
|---|---|
| NOS IAU CABLYD<br>*2 Ebrill 2026 - 7.00pm*<br>OEDFA GYMUN<br>Y PARCHEDIG DDOETHUR<br>DESMOND DAVIES<br>*Caerfyrddin* | DYDD GWENER Y GROGLITH<br>*3 Ebrill 2026 - 10.30am*<br>OEDFA BREGETHU<br>Y PARCHEDIG<br>PETER THOMAS<br>*Aberystwyth* |





***BLYCHAU STAMPIAU A CHETRYS***
***Y PRIORDY***
*Croeso i chi gyfrannu – y cyfan yn mynd at achoson da*

**Olga Williams**



## Y GYMDEITHAS
## DYDD MAWRTH 17 CHWEFROR 2026

***PLESER*** a hyfrydwch oedd bod yn rhan o'r Gymdeithas



niferus a ddaeth i Festri Heol Awst, Dydd Mawrth, 17 Chwefror am 2 y prynhawn i groesawu Richard ac Elin Rhys o Gwmni Telesgop. Estynnodd ein Gweinidog groeso cynnes iawn y Gymdeithas iddynt.

Cychwynnodd Richard ei yrfa ddarlledu yn Radio Glangwili gyda'r annwyl Sulwyn Thomas ac mae Richard yn cydnabod ei ddyled i Sulwyn am ei gymorth a'i ysgogiad i fyd darlledu.



Mae Richard wedi cynhyrchu a chyflwyno nifer o raglenni ac mae'n llais cyfarwydd iawn i ni i gyd ar Sain Abertawe a BBC Radio Cymru. Hefyd bu'n gweithio i HTV, BBC ac S4C.
Bu Elin yn gweithio fel gwyddonydd cyn dechrau gyrfa fel darllenwraig a newyddiadurwraig ar raglenni gwyddonol.



Yn 1993 fel gychwynnodd y ddau gwmni teledu annibynnol Telesgop gan weithio ar nifer o raglenni fel Ffermio, Penclacwydd, Sioe Fach, Byd Natur, Crwydro ac Ar y Lein i S4C. Cofiwn am y rhaglenni arbennig iawn a gafwyd y llynedd ar ein sianel, Gronyn Gobaith – Cymry CERN gydag Elin yn cyflwyno.

Cafwydd cipolwg ar rai o raglenni'r gorffennol gan weld llawer o wynebau cyfarwydd.

Ffion, eu merch sydd yng ngofal Cwmni Telesgop nawr ac rydym yn dymuno yn dda iawn iddi o'r pencadlys newydd yn Yr Egin.



***DIOLCHODD*** Rhian Jones i Richard ac Elin am brynhawn hwylus a diddorol a threuliwyd amser hyfryd yn cymdeithasu gyda'n gilydd dros baned.

***ON: A hithau'n Ddydd Mawrth Ynyd, diolch i Olga am y pancos blasus gyda'r baned!***






## Y DDIWEDDAR NANCY JOHN (HA)

Gyda thristwch y clywsom am golli Nansi John a fu farw'n dawel ar 19 Ionawr 2026 yng Nghartref Croeso, Pencader yn 97 oed.



Cafodd ei magu ym Mhenlanfach, Tre Ioan, ac ar ôl cyfnod byr yn byw yn Llanelli â'i diweddar briod annwyl Leslie, dychwelodd y ddau i Benlanfach, ble buont yn ffermio gyda'i gilydd am dros 40 o flynyddoedd cyn ymddeol, ac yn y pen draw symud i Haulfryn, Heol Salem.

Roedd Nancy'n fach o gorffolaeth ond yn fawr ei chymeriad, ei phenderfyniad, ei ffydd a'i barn.

Er ei hoed mawr, roedd yn effro iawn a'i diddordeb yn fawr yn nigwyddiadau'r dydd.

Roedd ei chysylltiad â Chapel Heol Awst yn mynd yn ôl yn bell gan i'w thad fod yn ddiacon yn yr eglwys, ac roedd Anghydffurfiaeth Gymraeg yn llywio bywyd Nansi hefyd.  Yno y priododd hi a Les a hefyd Gareth, y mab, a'i wraig Claire. Diolch yn fawr iawn i aelodau Heol Awst sydd wedi bod yn galw'n ffyddlon i'w gweld.

Fe fydd llawer yn cofio Nancy'n gwirfoddoli yn swyddfa Cymorth Cristnogol am flynyddoedd ac roedd wrth ei bodd yng nghanol y cwmni yno ac yn ymroi i'r gwaith.

Roedd yn meddwl y byd o'i theulu a'i theulu yn meddwl y byd ohoni hi a derbyniodd ofal arbennig ganddynt. Y tro diwethaf i ni gael cwmni Nancy yn Heol Awst oedd yn yr oedfa ddinesig pan oedd Gareth, ei mab, yn Faer Tref Caerfyrddin. Roedd y balchder o waith Gareth yn amlwg ar wyneb ei fam.

Daeth cynulleidfa niferus ynghyd i Amlosgfa Parc Gwyn fore Gwener, 20 Chwefror i oedfa i ddiolch am ei bywyd a'i gwaith. Gwasanaethpwyd gan ei gweinidog.

Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Gareth a Claire a'r teulu oll.

*'Yr hyn a allodd hon, hi a'i gwnaeth'*

**Ein Gweinidog**

# RHWYDWAITH

**EIN cofion cynnes at bawb sy’n anhwylus y dyddiau hyn, yn enwedig y rhai sy’n cael neu wedi cael triniaeth yn yr ysbyty a phawb sydd mewn cartrefi ac yn gaeth i’w haelwydydd ar hyn o bryd. Meddyliwn yn arbennig y mis hwn am Ken Morris (E), Lloyd Thomas (HA), Eleri Thomas (P) ac Elis Jones (P). Cofion annwyl atoch i gyd.**



Bu’r Dr Myfanwy Jones (P) ar Bore Da ar Radio Cymru yn trafod y modd y mae’r Mentrau Iaith yn cynnig cyfleoedd i bobl ifainc ddefnyddio’r Gymraeg.

Tybed faint ohonoch sy’n gwylio Call the Midwife ar BBC 1? Un o’r cymeriadau canolog mewn pennod ddiweddar oedd gŵr o’r enw Tony Bianchi a Steffan Rizzi (P) oedd yn cymryd ei ran ac mae’n cael ei ganmol am ei bortread arbennig ohono.

Ymysg y rhai sydd ar y rhestr fer ar gyfer Gwobrau Dewi Sant Llywodraeth Cymru 2026 mae Fiona Elias (P) ynghyd â dau o’i chydweithwyr yn Ysgol Gyfun Dyffryn Aman a hynny dan yr adran ar ddewrder.

Yr Hen a’r Newydd oedd teitl un o raglenni diweddar Dechrau Canu Dechrau Canmol pan fu Lowri Morgan yn cymharu emynau ddoe a heddiw gyda Meinir Richards a Christopher Davies. Daeth y canu o Gymanfa Cofio Gwynfor a gynhaliwyd yng Nghapel Heol Awst.

Mae cyfle i wrando ar bigion o Bapur yr Ofalaeth ar Bodlediad yr ofalaeth a diolch i Catrin Heledd (P)am eu darllen.

Bydd Ian Marks (HA) yn cynrychioli Cymru yn y gamp Aquabike (ras sy’n cyfuno nofio a beicio ac sy’n rhan o Bencampwriaeth Cenedlaethol Triathlon Cymru) a bu’n siarad am hyn ar Prynhawn Da ar S4C.



Llongyfarchiadau i Marian Hughes (HA) sy’n dathlu pen-blwydd arbennig yn 90 oed yn ystod mis Mawrth. Pob dymuniad da oddi wrthym i gyd.

Llongyfarchiadau i Peter Hughes Griffiths (P) sydd wedi'i anrhydeddu'n ddiweddar gan Glwb Pêl-droed Tref Caerfyrddin am ddegawdau o wasanaeth gwerthfawr a chwbl arbennig i'r clwb. Ardderchog yn wir!



Dymuniadau gorau i Carys Hopley (HA)a Dean Lewis a fydd yn priodi yng Nghapel Heol Awst ddydd Sadwrn, 28 Mawrth 2026 am 3.30 o'r gloch.

***LLONGYFARCHIADAU*** mawr i Elin Wyn (Eglwys Gymraeg Canol Llundain - P gynt) a Jac Thomas, Aberdâr, ar achlysur eu dyweddïad yn ddiweddar. Pob dymuniad da iddynt i'r dyfodol oddi wrthym i gyd.



**Unrhyw newyddion ar gyfer rhifyn Ebrill i'n Gweinidog neu Alun Charles**

**CYDYMDEIMLAD**

**Estynnwn ein cydymdeimlad cywir â'r Parchedig Tom Defis ar farwolaeth ei nai, Dorian Evans, Dre-fach, Felindre. Meddylwn am y teulu cyfan yn eu colled.**

**CYFUNDEB GORLLEWIN CAERFYDDIN**
**CWRDD CHWARTER**
**Dydd Iau 12 Mawrth 2026**
**Capel y Graig, Tre-lech SA33 6RU**
**Y Gynhadledd am 10,30 / Cyfarfod y Prynhawn am 1.30**



**EISIAU GWYBOD MWY AM GYFUNDEB ANNIBYNWYR GORLLEWIN CAERFYRDDIN?**

**TROWCH AT: CYFUNDEB.COM**



**THEATR CYMRU**
**yn cyflwyno**

**DOSBARTH MISS PRYDDERCH A LLEIDR Y LLEISIAU**




***Sioe gerdd hudolus newydd gan Mererid Hopwood, gyda cherddoriaeth gan Seiriol Davies***

**Theatr y Lyric**
**Dydd Sadwrn 6 Mehefin 2026**
**Pefformiad Teulu: 13.00 ac am 1800**
**Tocynnau: ☎0345 2263510**

## DYLETSWYDDAU

| ROTA YMWELWYR<br>ELIM, HEOL AWST A'R PRIORDY | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| MAWRTH / EBRILL 2026 | | | | | |
| E | Gweinidog | HA | Aelodau | P | June Thomas a Heather Williams<br>Huw a Mwynwen Jones<br>Llinos Roberts |

| HEOL AWST<br>DYLETSWYDDAU'R SUL | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth 8 | Ernest Jones a Dave Thomas | Ebrill 12 | Alun ac Olga Williams |
| Mawrth 29 | Ernest Jones a Dave Thomas | Ebrill 26 | Alun ac Olga Williams |

### CAPEL ELIM

| BLODAU | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 1 | Alison Evans | Ebrill | 19 | Mirain Walters |
| Mawrth | 15 | Mary Williams | | | |

| PARATOI'R BWRDD CYMUN | | |
|---|---|---|
| Mawrth | 1 | Bethan Morgan |
| Ebrill | 5 | Mirain Walters |

### PRIORDY

| GOFALWR / GWRESOGWR Y MIS | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | | Ebrill | |
| Gofalwr | Gwresogwr | Gofalwr | Gwresogwr |
| Emlyn Schiavone | Huw Jones | Catrin Heledd Jones | Huw Michael |

| PARATOI'R BWRDD CYMUN | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | * | * | * |
| Ebrill<br>*Sul y Pasg* | 5 | Bore | Teulu Catrin Heledd Jones |

## BLODAU

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 1 | Glenys Thomas | Ebrill | 5 | Pat Jones |
| | 8 | Glenys Thomas | | 12 | Heol Awst |
| | 15 | Rhian Jones | | 19 | Ann Thomas |
| | 22 | Rhian Jones | | 26 | Ann Thomas |
| | 29 | Heol Awst | | | |

## DARLLENWYR

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Mawrth | 1 | Gŵyl Dewi<br>Y Plant | Ebrill<br>*Sul y Pasg* | 5 | Nia Lewis |
| | 8 | Gill Owens | | 12 | Huw Jones |
| *Sul y Fam* | 15 | Y Mamau | | 19 | Jayne Woods |
| | 22 | Alun Charles | | 26 | Miriam Wyrwoll |
| *Sul y Blodau* | 29 | Heol Awst<br>Huw Michael | | | |

## CYHOEDDWYR

| | | | |
|---|---|---|---|
| Mawrth | Alison Parsons | Ebrill | Elinor Wyn Reynolds |

## CYFARFODYDD DIACONIAID AC YMDDIRIEDOLWYR EIN GOFALAETH

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ELIM** | **Bore Mercher<br>3 Mehefin** | **11.00** | **Y Capel** |
| | | | |
| **HEOL AWST** | **Prynhawn Mercher<br>3 Mehefin** | **2.00** | **Y Festri** |
| | | | |
| **Y PRIORDY** | **Nos Lun<br>1 Mehefin** | **7.00** | **Y Festri** |

## CYFARFOD BLYNYDDOL DIACONIAID A BLAENORIAID AC YMDDIRIEDOLWYR GOFALAETH CAERFYRDDIN A BANCYFELIN

**Nos Lun 23 Mawrth 2026 am 7 yn Festri Cana**

# SULIADUR MAWRTH / EBRILL 2026



| DYDDIAD | 10.00 | 11.30 | 3.00 | 5.00 |
|---|---|---|---|---|
| **Mawrth 1** | Priordy<br>Oedfa Gwyl Dewi y Dre | | | Elim ©<br>Cymun. Gwyl Dewi Y Dref |
| **Mawrth 8** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog | |
| **Mawrth 15**<br>**Sul Y Fam** | Priordy – OD<br>Gweinidog | Elim (+HA) - OD<br>Gweinidog | | |
| **Mawrth 22** | Priordy (E, HA &P)<br>John Gwilyn Jones | | | |
| **Mawrth 29**<br>**Sul y Blodau** | Heol Awst<br>(Undebol i Gapeli'r dref)<br>Gweinidog | | | |
| **Ebrill 2**<br>**Iau Cablyd** | | | | Tabernacl ©<br>Cymun Undebol i Gapeli y dref<br>Desmond Davies |
| **Ebrill 3**<br>**Groglith** | Tabernacl<br>Oedfa bregethu<br>i Gapeli Cymraeg y dref<br>Peter Thomas | Pererindod i Gopa Bryn Myrddin 2.30 | | |
| **Ebrill 5**<br>**Sul y Pasg** | Priordy©<br>Oedfa Gymun<br>i'r Ofalaeth gyfan<br>Gweinidog | | Bancyfelin i'r Ofalaeth gyfan.<br>Gorymdaith y Pasg<br>Gweinidog | |
| **Ebrill 12** | Heol Awst (E, HA &P)<br>Andrew Lenny | | | |
| **Ebrill 19** | Priordy<br>Gweinidog | Elim (+HA)<br>Gweinidog | | |
| **Ebrill 26** | Priordy<br>Gweinidog | | Heol Awst (+E)<br>Gweinidog | |

**AMSERLEN YR YSGOL SUL**
**MAWRTH / EBRILL 2026**



**Elim**
**1 Mawrth – Gŵyl Dewi**
**8 Mawrth – Ysgol Sul**
**15 Mawrth - Oedfa Deulu Sul y Fam**
**22 Mawrth - Ysgol Sul**
**29 Mawrth – Dim Ysgol Sul**

**Y Priordy**
**1 Mawrth – Gŵyl Dewi**
**8 Mawrth – Ysgol Sul**
**15 Mawrth - Oedfa Deulu Sul y Fam**
**22 Mawrth - Ysgol Sul**
**29 Mawrth – Dim Ysgol Sul**






## EIN PAPUR AR EI NEWYDD WEDD

**Bydd newid yn ein Papur o fis Ebrill ymlaen. Bydd yn cynnwys newyddion 5 eglwys yr Ofalaeth.**
**Enw'r papur fydd Y Ddolen. Edrychwn ymlaen at dderbyn y papur ar ei newydd wedd.**



Egwys Annibynnol Heol Awst, Caerfyrddin SA31 3AP

# *CYNGERDD DATHLU*
# *300 MLYNEDD CAPEL HEOL AWST*

## DYDD SUL, 22 MAWRTH 2026
## AM 6.00 YR HWYR

**Artistiaid:**
**Fflur Wyn (Soprano)**
**Côr Ysgol Bro Myrddin**
**Adran yr Urdd Ffynnonddrain**

**Cyfeilydd – Sioned Beynon**
**Organydd – Meirion Wynn Jones**

**Cadeirydd – Prif Gwnstabl Ifan Charles, Heddlu Dyfed-Powys**

**Llywydd – Y Parchedig Beti-Wyn James (Gweinidog)**

**Mynediad £10 wrth y drws**
**Plant ysgol am ddim**

**CROESO CYNNES I BAWB**
**Elw'r noson i'w rannu rhwng:**
**Côr Ysgol Bro Myrddin ac Adran yr Urdd Ffynnnonddrain.**